

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Leighton Roberts & Associates,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 20 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Rheolwr Cyfathrebu  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
  - Ansawdd profiad y claf
  - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
  - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Leighton Roberts & Associates, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 20 Mehefin 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Leighton Roberts and Associates yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael yn 'dda iawn'.

Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud i ddarpariaeth y gwasanaeth yn seiliedig ar ganllawiau'r llywodraeth. Roedd y newidiadau hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu trin mor ddiogel â phosibl, ac roedd gweithdrefnau ar waith i leihau lledaeniad COVID-19.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cael system lle gellir casglu sylwadau llafar a'i defnyddio i helpu i nodi unrhyw themâu a allai ddod i'r amlwg.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael darpariaeth o ofal mewn modd urddasol a pharchus, a chlywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol
- Roedd y practis yn hygyrch i unrhyw un â phroblemau symudedd

### Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig â hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn rhydd o unrhyw beryglon gweladwy. Roedd y meddygfeydd wedi'u cyfarparu'n dda i gynnal y gwasanaethau a'r triniaethau yr oedd y practis wedi'u cofrestru i'w darparu.

Gwelsom fod y trefniadau diogelwch tân yn briodol i amddiffyn y staff a'r ymwelwyr a bod cofnodion y cleifion yn gyffredinol yn cael eu cadw i safon dda.

Gwnaethom argymhellion ar gyfer adolygu'r templedi asesu risg er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl risgiau posibl a gwirioneddol sy'n seiliedig ar ganllawiau cyfredol a mwyaf diweddar. Gwnaethom hefyd argymhell y dylid cynnal rhai archwiliadau ychwanegol a fydd yn helpu i wella'r gwasanaethau y mae'r practis yn eu darparu ymhellach.

Dyma rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Dylid cynnal archwiliadau ychwanegol, yn benodol, cadw cofnodion, rhoi'r gorau i ysmegu ac archwiliad rhagnodi gwrthfotigau i asesu cydymffurfedd â'r canllawiau cyfredol
- Dylai nodiadau'r cleifion gofnodi bod sgrinio canser wedi'i gynnal a, lle bo'n berthnasol, bod cyngor ar roi'r gorau i ysmegu wedi'i ddarparu
- Mae angen adolygiad o'r templedi asesu risg a ddefnyddir ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch i sicrhau eu bod yn gyfredol ac wedi eu diweddarau.
- Rhaid i'r darparwr cofrestredig gyflwyno copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3). Rhaid anfon copi i AGIC.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau safonau uchel o ran rheoli heintiau

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom grŵp o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith, ond mae angen diweddarau rhai o'r rhain i adlewyrchu newidiadau diweddar yn y staff.

Roedd cyfarfodydd staff wedi dod i ben ac mae angen ailgyflwyno'r rhain.

Gwelsom fod ffeiliau staff yn cael eu cadw'n ddiogel a bod y staff wedi cwblhau ystod o hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol.

Rydym yn argymhell bod ffeiliau'r staff yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr holl wybodaeth cyflogaeth berthnasol yn cael ei chadw. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystlythyrau ar gyfer y staff newydd. Nid oedd disgrifiadau o'r swyddi yn y ffeiliau ac nid oedd un contract wedi'i lofnodi na'i ddyddio gan y gweithiwr neu'r cyflogwr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid cael gwybodaeth cyflogaeth lawn a'i chadw yn ffeiliau'r staff
- Mae angen ail-gyflwyno cyfarfodydd tîm
- Yn unol â newidiadau staff yn ddiweddar, mae angen adolygu a diweddarau'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn unol â hynny.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu cydberthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd.

Darperir y manylion am y pryderon i ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a ganfuom

### Ansawdd profiad y claf

#### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cafwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif (21) yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion, a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am ddwy flynedd neu fwy.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

*"Yn hapus gyda'r gwasanaethau a ddarperir"*  
*"Maen nhw'n ddeintyddion da iawn"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

*"Peidio â chanslo mor aml"*  
*"Sicrhau apwyntiadau ar gael yn fwy aml"*  
*"Trwy beidio â chanslo cymaint"*

#### Cadw'n iach

##### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff a'r cleifion ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo drwyddo draw'r practis. Roedd sgriniau wedi'u gosod ar ddesg y dderbynfa i helpu i ddiogelu'r staff a'r ymwelwyr.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunol, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Gwelsom fod digon o seddi yn y man aros, gyda rhai cadeiriau wedi'u tapio drosodd i annog ymbellhau cymdeithasol.

Teimlai 18 allan o'r 22 claf a gwblhaodd holiaduron ei bod yn amlwg iawn bod gan y practis weithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 ar waith yn ystod eu hymweliad â'r practis.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur gan AGIC wedi dweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw'r geg a'r dannedd yn iach.

Gwelsom fod arwydd dim ysmegu wedi'i arddangos, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth safleoedd di-fwg.

## **Gofal ag urddas**

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith, a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn yr iaith honno.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at wasanaethau cyfieithu i gynorthwyo unrhyw un, i dderbyn gwasanaethau a / neu wybodaeth yn yr iaith o'u dewis lle nad oedd Saesneg eu hiaith gyntaf. Roedd dolen glyw ar gael yn y practis ac roedd hon wedi'i nodi'n glir.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal mewn modd urddasol a pharchus, a chlywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Cadwyd drysau i feddygfeydd ar gau yn ystod triniaethau. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd ei hangen arnynt.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cynnal sgysiau preifat â chleifion yn y meddygfeydd deintyddol i ffwrdd o'r dderbynfa / man aros.

Gwelsom fod naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y man aros, felly yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom hysbysfwrdd a oedd yn dangos gweithdrefn gwyno'r practis, naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), enwau'r staff, oriau agor, manylion cyswllt y tu allan i oriau, rhestr o brisiau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), ynghyd â rhai polisiau a gweithdrefnau eraill sy'n benodol i'r practis.

Roedd rhestr brisiau ar gyfer rhai triniaethau preifat yn cael ei harddangos wrth ddesg y dderbynfa.

Gwelwyd posteri yn atgoffa'r cleifion am symptomau COVID-19 ac am wisgo masgiau wyneb.

Dyweddod yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r gwneud penderfyniadau cymaint ag yr oeddent yn dymuno ynglŷn â'u triniaeth.

## **Gofal amserol**

### **Mynediad amserol**

Gwelsom fod y practis yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn anfon negeseuon atgoffa am apwyntiadau a bod cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau dros y ffôn.

O'r 22 a ymatebodd i'r holiadur, teimlai naw ei bod yn hi'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a dywedodd naw arall ei bod hi'n 'eithaf hawdd'. Dywedodd pedwar ymatebydd arall nad oedd hi'n hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Dyweddwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn hysbysu cleifion am unrhyw oedi.

Dyweddwyd wrthym fod gan y practis nifer o apwyntiadau brys ar gael bob dydd. Os yw'r rhain yn llawn, gofynnir i gleifion ffonio'r diwrnod wedyn i gael apwyntiad. Roedd manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'u harddangos yn y man aros a dywedodd y staff fod y manylion hefyd ar gael ar neges peiriant ateb y practis.

Dyweddod 16 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau pe bai ei angen arnynt ar gyfer problem ddeintyddol frys.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaethom adolygu cofnodion deg claf a chanfod bod tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Roedd holl gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn cynnwys hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn y nodiadau.

### **Hawliau pobl**

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisiau ar waith sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth i sicrhau bod hawliau dynol y cleifion a'r staff yn cael eu cynnal.

Dywedodd bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Gwelsom fod gan y practis un ystafell driniaeth ar lawr daear y practis yn ogystal â thoiled i'r anabl. Roedd arwyddion ar gyfer y thoiled ac roedd canllawiau cydio ynddo i gynorthwyo'r cleifion ag anawsterau hygyrchedd.

Roedd y practis yn hawdd ei gyrraedd, gan alluogi unrhyw un ag anawsterau symudedd i fynd i mewn i'r practis a'r ardaloedd triniaeth ar y llawr daear.

### **Gwrando a dysgu o'r adborth**

Roedd y practis yn arddangos copi o'i weithdrefn gwyno ar yr hysbyswrdd, yn y man aros, a oedd yn dangos y cynnwys priodol o ran amserlenni ac uwchgyfeirio cwynion.

Rhoddyd inni'r cofnodion cwynion a oedd yn cael eu cadw'n gyfredol ac mewn ffolder bwrpasol. Gwelsom dystiolaeth o gamau gweithredu ac ymatebion a gymerwyd i ddatrys pryderon y cleifion.

Fe'n hysbyswyd nad oedd y blwch awgrymiadau yn cael ei ddefnyddio oherwydd COVID-19. Dywedodd y staff y byddai unrhyw adborth llafar yn cael ei drosglwyddo i'r staff. Nid oedd unrhyw ddull ffurfiol o gofnodi sylwadau llafar a gwnaethom argymhell y dylid cyflwyno dull o gofnodi hyn. Bydd hyn yn galluogi'r practis i adolygu'r holl adborth a nodi unrhyw themâu sy'n codi.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn allanol ac yn fewnol. Roedd pob man yn y practis i'w weld yn lân, yn daclus, ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddihalogi mewn cyflwr da. Roedd gan bob un o'r ystafelloedd triniaeth y cyfarpar angenrheidiol i gyflawni'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiad risg iechyd a diogelwch i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben. Gwnaethom nodi bod y dogfennau asesu risg yn cael eu hadolygu a bod y ddogfen wedi'i llofnodi a'i dyddio i gadarnhau na fu unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, efallai y byddai'r practis am ystyried datblygu templed asesu newydd i nodi'r meysydd nad oeddent wedi'u cynnwys yn y fersiwn sy'n cael ei defnyddio a'r dyddiad 2014. Dylai'r staff sicrhau bod y ddogfen asesu risg a ddefnyddir yn gyfredol ac wedi'i diweddarau.

Roedd trefniadau priodol ar waith i amddiffyn y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis pe bai tân. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu ledled y practis ym mis Awst 2021, ac roedd asesiad risg tân wedi'i adolygu ym mis Mai 2022. Rydym yn awgrymu bod y practis yn sicrhau bod y templed asesu risg tân yn gyfredol ac wedi'i ddiweddarau oherwydd bod y fersiwn a ddefnyddir yn ddyddiedig 2013. Felly, rydym yn argymhell bod staff yn sicrhau bod y ddogfen asesu risg tân a ddefnyddir yn gyfredol ac wedi'i ddiweddarau.

Gwelsom fatrics hyfforddiant tân ar waith a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant. Roedd arwyddion allanfeydd tân yn cael eu harddangos, ac roedd cofnod yn cael ei gwblhau i ddangos pryd roedd y larymau tân ac ymarferion yn cael eu cynnal.

Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos, ac roedd un aelod o staff yn y practis wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Gwnaethom argymhell bod y practis yn

ystyried cael swyddog cymorth cyntaf ychwanegol i sicrhau bod rhywun wedi'i hyfforddi ar gael pan oedd yr aelod arall o staff ar wyliau.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes ar waith. Gwelsom fod y polisi'n cynnwys rhifau cyswllt ar gyfer y staff, ond rydym yn argymhell y dylid ehangu'r rhestr i gynnwys manylion cyswllt gwasanaethau hanfodol eraill y gallai fod angen cysylltu â nhw pe bai argyfwng.

### **Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod gan y practis bolisi heintiau a rheoli ar waith, a oedd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau safonau uchel o ran atal a rheoli heintiau. Mae hyn oherwydd bod gan y practis amserlenni glanhau ar waith a oedd yn cael eu dilyn. Roedd aelod penodol o staff a oedd yn arwain rheoli heintiau. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio a bod yr amgylchedd mewn cyflwr da er mwyn gallu glanhau pob man yn effeithiol.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ymdrin ag unrhyw anafiadau o offer miniog.

Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn addas i'r diben. Gwelsom fod y llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cwblhau. Gwelsom fod archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) wedi'i gwblhau.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Roedd contract gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel ar waith. Gwelsom fod y gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac ar wahân i wastraff nad yw'n beryglus.

Gwnaethom nodi bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

### **Rheoli meddyginiaethau**

Canfuom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys. Roedd polisi argyfwng meddygol ar waith ac roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu storio mewn lleoliad ar gael yn hawdd i'r staff.

Roedd systemau ar waith i ddangos bod gwiriadau ar y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gwnaethom nodi bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir i gyd o fewn eu dyddiad dod i ben.

Roedd gan y practis un aelod o staff a oedd yn swyddog cymorth cyntaf. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd yr holl gynnwys yn gyfredol ac yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau cywir y byddent yn eu dilyn pe bai argyfwng neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad amhriodol sy'n ymwneud â chyffuriau.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl**

Gwelsom fod gan yr holl staff clinigol hyfforddiant cyfredol Lefel 2 ar ddiogelu oedolion a phlant. Y prif ddeintydd oedd arweinydd diogelu'r practis a dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd iddo.

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith. Roedd y ddogfen yn cynnwys manylion am y tîm diogelu lleol ac roedd ynddi siart llif er mwyn cyfeirio'n gyflym at y camau gweithredu y gallai fod angen i'r staff eu cymryd.

Gwelsom fod gan bob un o'r staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eu ffeiliau a gynhaliwyd cyn eu cyflogaeth.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer.

Gwelsom fod yr offer deintyddol mewn cyflwr da ac yn ddigonol o ran nifer. Roedd trefniadau digonol ar waith i ymdrin ag unrhyw ddyfais neu system sy'n methu.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig yn ddiogel a chanfod bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ar gael. Oherwydd newidiadau staff yn ddiweddar, mae angen diweddarau enw'r goruchwyliwr amddiffyn rhag ymbelydredd. Nid oedd y rheolau lleol yn cynnwys dynodi ardaloedd rheoledig na chynllun wrth gefn.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod hyfforddiant y deintyddion ar ymbelydredd i'oneiddio yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant parhaol ar-lein yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o asesu cymhwysedd yn dilyn hyfforddiant.

Roedd tystiolaeth bod gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal mewn perthynas ag asesiad risg ymbelydredd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin y cleifion. Mae hyn oherwydd bod manylion wedi'u dogfennu yn eu datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom nodi bod y practis wedi cwblhau rhai archwiliadau, gan gynnwys Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) a radioleg. Rydym yn argymhell bod y practis yn cwblhau archwiliadau ychwanegol i gynnwys cadw cofnodion, rhoi'r gorau i ysmegu a rhagnodi gwrthfotigau. Bydd y rhain yn sicrhau bod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion.

Mae angen diweddarau'r polisi sicrhau ansawdd QAS i ddiffinio'n glir y trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol yn y practis.

Nid oedd adolygiad gan gymheiriaid yn cael ei gynnal ar adeg yr ymweliad oherwydd mai dim ond un deintydd oedd.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Mae angen copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) cyn gynted â phosibl. Dylid cyflwyno copi o'r adroddiad a luniwyd i AGIC.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisiau data diogelu amrywiol ar waith, gan gynnwys polisi data diogelwch a pholisi diogelwch gwybodaeth ar waith. Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel yn unol â gofynion Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

### Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu deg set o gofnodion cleifion a daethom i'r casgliad bod y rhain yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan. Roedd y nodiadau yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da ar y cyfan.

O'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod ganddynt ddigon o wybodaeth am hanes deintyddol pob claf, y rhesymau dros fynychu, gwybodaeth am driniaeth, cydsyniad, a gwybodaeth adalw.

Fodd bynnag, o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwnaethom ganfod rhai meysydd lle mae angen gwella. Ni welsom unrhyw sgrinio canser wedi'i gofnodi na



chyngor rhoi'r gorau i ysmegu wedi'i gofnodi. Argymhellwyd felly bod cofnodion yn cael eu hadolygu a bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn benodol i'r meysydd a nodwyd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yprif ddeintydd (perchennog y practis) sy'n bennaf gyfrifol am reoli'r practis. Mae'n cael ei gefnogi gan ddwy nyrs ddeintyddol, dau aelod o staff y dderbynfa, nyrs dihalogi a hylenydd. Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol â'u hamodau cofrestru.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu perthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd a'u cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion, yr oedd y ddau yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Oherwydd newidiadau staff yn ddiweddar, mae angen diweddarau rhai o'r rhain i adlewyrchu'r trefniadau presennol a / neu'r sawl sy'n gyfrifol.

Y prif ddeintydd oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno pe bai unrhyw anafiadau difrifol.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd tîm wedi'u cynnal ers peth amser. Argymhellwn felly fod y rhain yn aildechrau a chofnodion y cyfarfodydd yn cael eu cofnodi a'u cadw ar ffeil.

### Gweithlu

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r gwaith o recriwtio a sefydlu staff newydd.

Roedd y ffeiliau staff a adolygwyd gennym yn cynnwys tystiolaeth o gofrestrriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chontract cyflogaeth. Nid oedd y contract ar gyfer un nyrs ddeintyddol wedi'i lofnodi

na'i ddyddio gan y cyflogai na'r cyflogwr. Gwelwyd disgrifiad swydd yn y llawlyfr staff, ond dim un yn y ffeiliau staff. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod tystlythyrau wedi eu cael. Mae angen cael gwybodaeth cyflogaeth lawn a chadw tystiolaeth o hyn ar ffeil.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedasant wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch darparu gofal i'r cleifion, naill ai'n uniongyrchol ag aelod o staff neu â chorff priodol arall os oedd angen.

Gwelsom fod y staff yn derbyn gwerthusiad a gwelwyd copïau o'r rhain yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom fod cofnod hyfforddi ar waith ond nad oedd wedi'i lenwi â gwybodaeth hyfforddi berthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff a bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) yn ddiweddar ond nid oedd y tystysgrifau wedi'u cyhoeddi ar adeg yr arolygiad. Felly, rydym yn argymhell bod tystiolaeth o'r dystysgrif hyfforddi dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) yn cael ei rhannu ag AGIC.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Leighton Roberts & Associates

**Dyddiad yr arolygiad:** 20 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynghylch sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Leighton Roberts a'i Gymdeithion

Dyddiad yr arolygiad: 20 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth	Amserlen
Dylid cyflwyno system i gasglu unrhyw sylwadau / adborth llafar. Bydd hyn yn galluogi'r staff i nodi unrhyw themâu sy'n codi.	Safonau Iechyd a Gofal - 6.3 Gwrando a dysgu o adborth  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (2)(b)(ii) (c)	Cofnodi sylwadau yng nghofnodion cleifion, gyda chaniatâd. Defnyddio ffeil cwynion / canmoliaeth mewngofnodi cwynion / canmoliaeth sydd wedi'i lleoli yn y swyddfa. Hysbyswyd yr holl staff o hyn.	Pob aelod o staff.  Ar unwaith
Mae angen adolygiad o'r templedi a ddefnyddir ar gyfer asesiadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch i sicrhau eu bod yn	Safonau Iechyd a Gofal - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac	Templedi i'w hadolygu.  Templedi newydd a rhai wedi'u diweddarau i'w gwneud.	Leighton Roberts / Teresa Gaspar  3 mis

<p>gyfredol ac wedi'i diweddarau. Mae'r templedi hyn wedi cael eu defnyddio ers 2013 a 2014.</p>	<p>atebolrwydd; 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (1)(b) (8)</p>			
<p>Dylid ystyried ychwanegu gwasanaethau / cysylltiadau ychwanegol at y cynllun parhad busnes i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd mewn argyfwng.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8(1)(o)</p>	<p>Ymchwilio i'r holl wybodaeth gyswllt sydd ei hangen h.y. cwmnïau cyfleustodau, cwmni ymbelydredd, cwmni TG, cwmni gwastraff a diwygio'r cynllun parhad busnes yn unol â hynny.</p>	<p>Julia Barnes / Angela Davies</p>	<p>2 mis</p>
<p>Argymhellir staff ychwanegol sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf i sicrhau bod digon o staff wrth gefn pan fydd yr unig berson cymorth cyntaf ar</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Trefnu i aelod arall o staff fynychu cwrs</p>	<p>Leighton Roberts</p>	<p>3 mis</p>

<p>wyliau blynyddol / hyfforddiant ac ati.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(b)</p>			
<p>Mae angen diweddarau dogfennau sy'n ymwneud â'r offer pelydr-x i adlewyrchu enw'r goruchwyliwr amddiffyn rhag ymbelydredd; nodi'r ardaloedd rheoledig a'r cynllun wrth gefn.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal - 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(b) (2)(a)</p>	<p>Diwygio'r enw i L. Roberts ar bob polisi a dogfennaeth yn ymwneud ag offer pelydr-x.</p>	<p>Leighton Roberts</p>	<p>3 mis</p>
<p>Mae angen diweddarau'r polisi sicrhau ansawdd QAS i ddiffinio'n glir y trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol yn y practis.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1)(n)</p>	<p>Adolygu a diweddarau polisi ac asesu trefniadau archwiliadau clinigol sydd eu hangen.</p>	<p>Leighton Roberts</p>	<p>Pedwar mis</p>



<p>Dylid cwblhau archwiliadau ychwanegol, a chynnwys cadw cofnodion, rhoi'r gorau i ysmegu a rhagnodi gwrthfotigau.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1)(a)(b) a (2)(d)(ii)</p>	<p>Cwblhau archwiliadau newydd</p>	<p>Leighton Roberts</p>	<p>3-6 mis</p>
<p>Mae angen copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) a chyflwyno copi i AGIC.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1)(a)(b) (2)(a)(b)(i)(ii)(iii)(iv) (c) (d)(i)(ii)(iii) (3) (4) (5)</p>	<p>Ymhelaethwch os gwelwch yn dda.</p>	<p>Leighton Roberts</p>	
<p>Mae angen adolygiad o gofnodion cleifion i sicrhau bod sgrinio am ganser a chyngor ar roi'r gorau i ysmegu yn cael ei gofnodi.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal - 3.5 Cadw cofnodion</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017</p>	<p>Cyngor i'w roi a'i gofnodi mewn nodiadau gan y deintydd</p>	<p>Leighton Roberts</p>	<p>Ar unwaith</p>

<p>Yn ogystal, dylid cofnodi'r iaith sydd orau gan / dewis iaith y claf yn ei nodiadau hefyd.</p>	<p>- Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii)</p>	<p>Hanes meddygol claf / ffurflen manylion cyswllt wedi'i diwygio i gynnwys dewis iaith.</p> <p>Cysylltwch â'r cwmni meddalwedd i ofyn a oes unrhyw ffordd y gellid cynnwys adran yng nghofnodion y cleifion ar gyfer hyn, ac os nad yw hyn yn bosibl yna'r dewis i gael ei gofnodi yn nodiadau'r claf gan y dderbynfa.</p>	<p>Staff y dderbynfa, Teresa Gaspar a Julia Barnes.</p> <p>Hysbyswyd yr holl staff.</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Mae angen diweddarau'r polisïau a'r gweithdrefnau i adlewyrchu newidiadau diweddar mewn staffio.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (6)</p>	<p>Gwiriwch yr holl ddogfennau polisïau a gweithdrefnau a'u diwygio yn unol â hynny</p>	<p>Leighton Roberts</p>	<p>3-4 mis</p>
<p>Mae angen aildechrau cyfarfodydd tîm a chofnodi cofnodion a'u cadw ar ffeil.</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu</p>	<p>Trefnu dyddiadau penodol ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd misol i'r staff a phenodi aelod o staff ar gyfer</p>	<p>Pob aelod o staff</p>	<p>1 mis yna cyfarfodydd wedi'u trefnu'n rheolaidd i'w cytuno</p>

	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (2)(c) (d)(iii)	pob cyfarfod yn eu tro i gofnodi'r cofnodion.		am weddill y flwyddyn.
Mae angen adolygu ffeiliau'r staff i sicrhau bod gwybodaeth lawn am gyflogaeth yn cael ei chasglu a'i storio yn eu ffeiliau.	Safonau lechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(3)(a)(b)(c)(d)(e)	Adolygu ffeiliau a diweddarau'r wybodaeth sydd ei hangen	Leighton Roberts	3 mis
Mae angen tystiolaeth o dystysgrifau hyfforddi dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR).	Safonau lechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(3)(a)	Tystysgrifau a dderbyniwyd	Angela Davies	cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Leighton Roberts

Swydd: Pennaeth / Perchennog

Dyddiad: 20/7/22